Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru

Y Llan

RHIFYN MEDI 2010 • Pris: £1

YN Y RHIFYN HWN:

- O Lan i'r Llan - tud 2 a 3
- Ar y ffôn o'r ffin - tud 4
- Y Deon Jazz - tud 6
- Cofio Dr Enid - tud 7-11
- Arhoswch funud - tud 12-13

DIWEDD CYFNOD

Pan ddaeth y newydd ddechrau Gorffennaf fod Dr Enid Pierce Roberts wedi ein gadael ni, y peth cyntaf a ddaeth i'm meddwl ar ôl cydnabod tristwch y newyddion oedd bod hwn yn ddiwedd cyfnod. Rhywbeth felly sy'n digwydd, mae'n debyg, pan fyddwn yn colli cawr yn ei faes (neu gawres yn ei maes, yn yr achos hwn).

I'r rhai a gafodd y fraint o'i chyfarfod, fe wyddoch nad oedd hi'n gawres yn gorfforol, ond os oedd prawf erioed nad wrth ei big y mae mesur cyffylog, yr oedd ei natur wylaidd hi'n cuddio gallu a doethineb anfesuradwy.

Gan mai hi fu'n prawfddarllen proflenni *Y Llan* i mi, go brin y byddai'r rhifyn hwn wedi cyrraedd y wasg yn ôl pe bai hi wedi cael gweld yr hyn a ddywedir amdani rhwng y cloriau! Yn hynny o beth, mi wn fy mod yn gwneud rhywbeth na fyddai hi wedi dymuno i mi ei wneud. Ond os yw llyfr Ecclesiasticus yn datgan 'Canmolwn yn awr y gwŷr enwog', siawns bod dyletswydd arnom i gydnabod llafur amhrisiadwy'r doethur mewn newyddiadur a oedd mor annwyl ganddi.

Gwreiddiau

O ran cerrig milltir ei bywyd, fe'i ganed yn 1917 yn Llangadfan yn Sir Drefaldwyn, a graddiodd o Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, yn 1938 pan oedd ei harwr mawr, Syr Ifor Williams, yn Athro'r Gymraeg yno. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n dysgu mewn ysgolion yn y de, ond dychwelodd i Fangor yn 1946 i ddarlithio yn

Adran Gymraeg ei hen goleg. Yno y bu nes iddi ymddeol yn gynnar yn 1978, a pharhaodd i fyw ym Mangor a chyfrannu at fywyd yr eglwys gadeiriol yno, yn sionc ei meddwl a'i chorff hyd y diwedd.

Mae eraill, galluocach na mi, yn cyfeirio o fewn y rhifyn hwn at ei gallu academaidd rhyfeddol, ei dawn i gyfleu ei gwybodaeth ddihysbydd yn syml, a'r diddordeb annwyl a mamol oedd ganddi yn ei myfyrwyr.

Yn ystod ei gyrfa, gwnaeth gyfraniad pwysig i'n gwybodaeth am Feirdd yr Uchelwyr, ac am agweddau cymdeithasol ar fywyd y beirdd hynny. At hynny, y mae gafael pawb a fu wrth ei thraed ar ramadeg ein heniaith yn gryfach o lawer na'r hyn a fyddai fel arall.

Ond yr hyn sy'n parhau i fy synnu hyd heddiw yw ei bod hi wedi ymddeol cyn i mi gael fy ngeni, ac eto, yn ystod y deuddeg mlynedd ar hugain ers hynny, bron y gellid dadlau iddi gyflawni llawn cymaint, os nad mwy, na'r hyn a wnaeth yn ystod ei gyrfa gyflogedig, a hynny o'i gwirfodd. Os caf innau fyw fel hithau dros fy 90 oed, byddai'n gamp cyflawni canfed rhan o'r hyn a wnaeth hi ers ymddeol.

Caredigrwydd

Ddeg mlynedd yn ôl, bu farw fy nain - hithau'n Enid Roberts drwy gyddigwyddiad. Tua'r un cyfnod y deuthum i adnabod ei chydenw, a minnau'n tynnu at ddiwedd fy astudiaethau BA ac yn dechrau ymhél â'r *Llan* am y tro cyntaf. Braint oedd cael bod yn ei chwmni sawl tro wrth y tân trydan yn Celynnin, yn y car ar y ffordd i'r Corff Llywodraethol, ac ar wibdeithiau i ymweld â nifer o eglwysi gogledd Cymru. Yn ystod yr achlysuron difyr hynny, rhannodd bob math o gyfrinachau â mi – nifer mewn neillebau cynnil, a'r rheiny'n ddadlennol iawn, os nad dadleuol iawn ar adegau! Bydd, mi fydd chwithdod mawr ar ôl y seiadau hynny.

Yn gwbl nodweddiadol ohoni, mynnodd wrth ei theulu na fyddai unrhyw un yn cyflwyno teyrnged iddi yn ei hangladd. I mi, yr oedd y modd anhunanol y bu'n byw ei bywyd ac yn rhannu ei gwybodaeth â ni yn ddigon o deyrnged ynddi'i hunan i 'wraig orau o'r gwragedd', i fenthyg teitl un o'i chyfrolau. Diolch am gael ei hadnabod.

o lan i'r Llan

Esgobaeth TYDDEWI

Pererindod yr Esgob

Mae'r esgob yn gwahodd pobl i ymuno ag ef ar bererindod i Wledydd Sanctaidd Palestina ac Israel ym mis Chwefror 2011. Ymwelodd â'r lle ddiwethaf ddeugain mlynedd yn ôl, a dywed fod hwn yn gyfle gwych i gysylltu â mannau a thestunau'r Beibl, ac i gyfarfod Iesu mewn ffordd newydd a gwefreiddiol.

Y Gwir Barchedig Wyn Evans

"Down o hyd i'r efengyl mewn ffordd hynod o gyfoes ym mywydau'r Palestiniaid ac Israeliaid a gyfarfyddwn wrth iddynt ein tywys trwy eu gwlad hardd a chythryblus. Bydd yr amrywiaeth o safleoedd a sefyllfaoedd yn siarad â phob un ohonom mewn ffordd wahanol; ond bydd undod ar ein taith wrth i ni adnewyddu ein hymrwymiad i Iesu, sydd yr un ddoe a heddiw ac am byth. Bydd y daith yn un llawn chwerthin a llawenydd, addoliad a chymdeithas."

Bydd angen symudedd rhesymol arnoch, oherwydd bydd llawer o risiau yn rhan o'r daith. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dennis neu Sian Wight ar 01267 267192. Ceir amlinelliad llawn o'r daith ar y wefan ganlynol:
http://www.churchinwales.org.uk/david/oddsandsundries/pilgrimage.pdf

Penodiadau

Penodwyd y Parchedig Huw Davies, sy'n offeiriad â gofal dros blwyf Llawhaden gyda Threfelen a Llanycefn a bywoliaeth unedig Uzmaston yn ficer y fywoliaeth honno. Yn ogystal, penodwyd y Parchedig John Powell yn offeiriad mewn gofal gyda thŷ am ddyletswyddau yn Llangrannog gyda Llandysiliogogo gyda Phenbryn.

Apêl

Ddydd Sadwrn, 11 Medi, lansiwyd apêl am £150,000 i atgyweirio creirfa Dewi Sant yn yr eglwys Gadeiriol. Mae'r greirfa yn dyddio'n ôl i'r 12 ganrif, ac roedd yn gyrchfan bwysig i bererinion yn y canol oesoedd. Ond fe'i dinistriwyd yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, ac mae wedi parhau felly byth ers hynny.

Bydd adfer y greirfa'n golygu dychwelyd creiriau Dewi Sant i'w lle priodol y tu ôl i brif allor yr eglwys gadeiriol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ymwelwyr a phererinion weddïo wrth y greirfa a diolch i Dduw am fywyd Dewi.

Mae'r apêl yn cael ei chydlynu gan Gyfeillion yr eglwys gadeiriol, a sefydlwyd 70 mlynedd yn ôl i gefnogi gwaith Deon a Chabidwl yr eglwys gadeiriol. Gosodwyd nod o gwblhau'r gwaith erbyn Dydd Gŵyl Dewi 2012.

Esgobaeth LLANELWY

Cofio Mary Sumner

Mewn tri digwyddiad gwahanol, dathlwyd bywyd sylfaenydd Undeb y Mamau, Mary Sumner, yn archddiaconiaethau'r esgobaeth ddydd Llun 9 Awst. Yn Rhuthun, bu Undeb y Mamau yn cyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth yn Awelon, ger eglwys Sant Pedr. Roedd Dawns, drama, canu, clychau llaw a gitarau yn nodweddion amlwg o'r diwrnod.

Yn archddiaconiaeth Wrecsam, bu'r aelodau yn ceisio osgoi'r cawodydd glaw yng Nghilcain i gynnal stondinau a gweithgareddau i blant yn yr eglwys ac yn neuadd y pentref. Yn archddiaconiaeth Maldwyn, cynhaliodd yr aelodau brynhawn o weithgareddau, cystadlaethau a gemau yng nghanolfan gymunedol Aberriw.

Dymuna Carol Chamberlain, Llywydd Undeb y Mamau'r esgobaeth, ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r dathliadau i nodi Diwrnod Mary Sumner, ac am roi cyfle i Undeb y Mamau gynnig rhywbeth i gymunedau o un pen yr Esgobaeth i'r llall.

Gyda'n gilydd

Mae Hyfforddi Gyda'n Gilydd yn rhaglen sy'n agored i unrhyw un sy'n mynychu gwasanaethau yn yr esgobaeth, pa un ail lleygwyr ai clerigion ydyn nhw. Nos Fawrth, 21 Medi, rhwng 7 a 9 yr hwyr yn eglwys y Santes Margaret, Garden Village, Wrecsam, cynhelir sesiwn ar gyfer rhai sy'n dechrau ymwneud â rhodd cymorth, neu rai a fyddai'n hoffi gloywi eu sgiliau. Bydd y pynciau'n cynnwys beth allwch chi hawlio amdano, cadw cofnodion, datganiadau, cwrdd â gofynion archwilio ac ati.



Eglwys y Santes Margaret

Nos Fawrth, 12 Hydref, eto rhwng 7 a 9 yr hwyr yn eglwys y Santes Margaret, Garden Village, Wrecsam, cynhelir sesiwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â chynnal a chadw mynwentydd. Bydd y pynciau dan sylw yn cynnwys y fframwaith cyfreithiol, cynllun rheoli, iechyd a diogelwch, ac annog bwyd gwyllt. Yna, ddydd Sadwrn 20 Tachwedd ym Mhafiliwn Llangollen, cynhelir digwyddiad dan arweiniad Lucy Moore, sefydlydd y cynllun 'messy church' ac awdur llyfrau ar y pwnc. Darperir cinio, a bydd y digwyddiad yn ymestyn o'r bore tan y prynhawn. I archebu eich lle, cysylltwch â Siân Connelly, gan roi eich enw, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn ac enw eich plwyf naill ai drwy e-bost sianconnelly@churchinwales.org.uk neu dros y ffôn ar 01745 532582.

Gosod

Brynhawn dydd Sul, 26 Medi, bydd Canghellor Llanelwy, Ei Anrhydedd y Barnwr Roger Dutton DL, ac Archddiacon Wrecsam, yr Hybarch Shirley Griffiths, yn cael eu derbyn yn swyddogol i'w galwedigaethau newydd mewn gwasanaeth arbennig am 3.30pm.

Esgobaeth BANGOR

Llwyddiant Llanfair

Ddydd Mawrth 3 Awst gweinyddodd yr Esgob Gymun Bendigaid i Gristnogion plwyf Llanfair Mathafarn Eithaf. Yr achlysur oedd nodi llwyddiant mawr y plwyf i oresgyn anawsterau ariannol

Llanfair Mathafarn Eithaf

diweddar. Cyflwynodd yr Esgob dystysgrif i'r trysorydd, y wardeiniaid a'r Rheithor, gan ddweud "rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd eglwysi a phlwyfi yn gweld waeth pa mor fawr y mae'r heriau'n ymddangos, y gellir eu goresgyn gydag ymroddiad ac ymrwymiad. Cefais argraff eithriadol o dda oddi wrth yr hyn a welais yma ac rwyf yn ei argymell yn batrwm i eraill." Ceir rhagor o fanylion am lwyddiannau'r plwyf gan staff cyllid Swyddfa'r Esgobaeth.

Cyngerdd

Nos Lun 20 Medi, am 7 yr hwyr, cynhelir cyngerdd yn Eglwys Cristiolus, Llangristiolus, gyda chôr llwyddiannus Aelwyd yr Ynys yn perfformio dan arweiniad Nia Efans. Pris y tocynnau, sy'n cynnwys gwydraid o win, yw £8, a gelir eu prynu gan Mrs Carol Peacock (01248 751212) neu Mrs Grace Thomas (01248 723 552).

Esgobaeth LLANDÂF

Hanner canfed pererindod

Yn ystod yr haf, bu'r Canon Graham Francis ar bererindod i Gysegrfa ein Harglwyddes yn Walsingham yn Swydd Norfolk ar y cyd â 170 pererin arall o'r Esgobaeth. Yr hyn sy'n nodedig am y daith hon yw mai dyma'r hanner canfed blwyddyn yn olynol i'r Canon Francis deithio i Ddwyrain Anglia.

Aeth ar ei bererindod gyntaf yno pan oedd yn fachgen ysgol pymtheg oed ym Mhort Talbot, a dywedodd eleni ei fod yn gwybod bryd hynny, yn ôl yn 1960, y byddai Walsingham yn chwarae rhan bwysig yn ei daith ysbrydol bersonol. Talwyd teyrnged arbennig yn ystod y bererindod ddiweddaraf fis Gorffennaf eleni i waith Canon Francis dros y blynyddoedd yn annog plwyfolion De Cymru i ymweld â Walsingham.

Walsingham

Dywedir mai pererindod flynyddol Llandâf yw un o'r ymweliadau mwyaf gan grŵp penodol ganol wythnos waith, ac mae nifer o bobl yr esgobaeth yn ymweld â Norfolk ar adegau eraill o'r flwyddyn, hefyd.

Esgobaeth MYNWY

Tŷ am ddyletswydd

Mae bywoliaeth reithorol Mynyddislwyn yn nyffryn Sirhywi yn chwilio am offeiriad fyddai â diddordeb mewn cael llety am ddyletswyddau. Byddai'r sawl a benodir yn gweinidogaethu yn y cymunedau sydd o amgylch y pum eglwys sydd yn yr ofalaeth, gan weithio deuddydd yn ystod yr wythnos waith ac ar y Sul.

Bydd y sawl a benodir yn teimlo'n angerddol dros Efengyl Crist, yn gallu annog teuluoedd i gymryd rhan lawn ym mywyd yr eglwys, yn frwd dros genhadu ac estyn allan, yn gyfathrebwr da, ac yn gallu annog eraill i ddefnyddio eu doniau. Byddai'r swydd yn gweddu i offeiriad heini sydd wedi ymddeol, o bosibl, ac sy'n dymuno parhau â'i weinidogaeth.

Mae'r ficerdy yn cynnwys tair ystafell wely, stydi a garej. Telir treuliau gwaith yn llawn. Cysyllter â swyddfa'r Esgobaeth ar 01633 267490 cyn 4 Hydref am ragor o fanylion.

Esgobaeth ABERTAWE AC ABERHONDDU

Darlith

Darlith ddiweddaraf cyfres Prifysgol Abertawe o ddarlithoedd Diwinyddol i'r cyhoedd yw un dan y teitl "Sisters of Sinai" gan yr Athro Janet Soskice. Traddodir y ddarlith yn Narlithfa James Callaghan am 7pm nos Wener 22 Hydref, ac mae'r mynediad am ddim.

Magwyd yr Athro Soskice yng Nghanada, a bu'n byw yn Lloegr ers rhai blynyddoedd erbyn hyn. Mae hi'n Athro Diwinyddiaeth Athronyddol ym Mhrifysgol Caergrawnt ac yn Gymrawd yng Ngholeg yr Iesu yn y Brifysgol honno. Mae hi hefyd yn ysgrifennu'n gyson i bapur newydd *The Times* ac atodiad llenyddiaeth y papur hwnnw.

Seilir y ddarlith ar ei chyfrol ddiweddar dan yr un teitl, sy'n adrodd hanes rhyfeddol dwy chwaer o'r Alban yn darganfod un o'r llawysgrifau hynafol pwysicaf a ganfuwyd erioed.

Wedi ei guddio mewn cwpwrdd dan lyfrgell fynachaidd yn anialdir Sinai, darganfu'r chwiorydd rywbeth a oedd yn ymddangos fel palimpsest – darn wedi ei ysgrifennu dros un arall. Yn ffodus, sylweddolodd un o'r chwiorydd, Agnes, mai un o'r copïau cyntaf o'r Efengylau, wedi ei ysgrifennu mewn Syrieg hynafol...

AR Y FFÔN O'R FFIN

Cipolwg ar y byd drwy sbectol Glyn Morgan

"And she still corrects your work?" meddai mab yng nghyfraith i mi pan roddais y ffôn i lawr un noswaith. Cyfeirio'r oedd at alwad gan y diweddar Ddr Enid Pierce Roberts yn fy hysbysu fod camgymeriad ffeithiol yn fy ngholofn y mis canlynol. Fel y soniodd eraill yn y cylchgrawn *Golwg*, roedd cywirdeb yn hollbwysig iddi.

Fe'i gwelais ac fe'i clywais unwaith cyn dod yn fyfyriwr iddi yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, un o'i myfyrwyr gwannaf fel y buasai'n barod i gyfaddef rwy'n siŵr. Serch hynny, fe gymerai ddiddordeb arbennig ynom ni'r gweiniaid hefyd. Âi'r diddordeb hwnnw y tu allan i furiau'r stafell ddarlithio. Yn wir, ni roddai dim fwy o foddhad iddi na chael gwybod pwy oedd cariad pwy yn ein plith! Ac ni pheidiai'r diddordeb unwaith y byddem wedi gadael y coleg. Hyd yn oed bum mlynedd yn ddiweddarach, daeth anrheg priodas drwy'r post. Roedd un o'm cyd-addolwyr yn y plwyf hwn hithau yn y coleg yr un pryd â mi, a phan glywodd am ei marw y peth cyntaf y soniodd amdano oedd ei charedigrwydd mawr. Un noswyl Nadolig cawsom ei chwmni yng ngwasanaeth y Cymun yn eglwys Llangadfan pan oeddwn yng ngofal y lle hwnnw, a bu yn yr ardal yn ddiweddar iawn yn traddodi darlith "heb fawr ddim nodiadau", ys dywedodd rhywun.

Cafodd ei brifo gryn dipyn gan rywun yn yr Eglwys yng Nghymru a gyhoeddodd ei bod yn 90 oed, "a minnau ond yn 89"! Gwelwn i gyd golled enfawr ar ei hôl, a diolchwn i Dduw am a roddodd i ni dros gyfnod mor faith.

• • •

Efallai y cofia darllenwyr y golofn hon i mi, rai misoedd yn ôl, gyfeirio at ymgais y babaeth i'n denu'n ôl i'w chôl yn sgil y Diwygiad Protestannaidd drwy anfon cenhadon i'r wlad o'r cyfandir. Fel y digwyddodd, methiant fu'r ymgais. Un o'r cenhadon hyn, ac un a gafodd sylw mawr yn ystod yr haf, oedd Sant (erbyn hyn) John Roberts. Meddiannwyd Abaty Cymer ger Dolgellau i gynnal dathliad mawr, ac ym mhrif eglwys y Pabyddion yn Lloegr, Cadeirlan Westminster, cafwyd dathliad arall. Yn ogystal, cafwyd rhaglen deledu raenus ar y dyn gan Guto Harri. Yn bresennol yn Westminster roedd dau Archesgob Anglicanaidd (Cymru a Chaergaint), ynghyd ag esgobion Anglicanaidd eraill. Tybed pa fusnes oedd gan yr arweinwyr hyn i fod yn bresennol mewn gwasanaeth i gofio un, dewr neu beidio, a oedd â'i fryd ar lusgo'r wlad yn ôl i freichiau Rhufain? Rhyfedd o fyd.

• • •

Mae cyfle i bawb ddangos eu doniau yma yng Nghymru. Sylweddolais hyn, am y tro cyntaf a dweud y gwir, wrth wylio'r rhaglenni ar y Sioe Fawr a'r Eisteddfod. Hynny yw, mae'n bosib i bwt o blentyn arddangos cwningen neu fochyn cwta yn y Sioe, ac mae'n bosib i un gystadlu ar bethau fel adrodd yn yr Eisteddfod. Mae digonedd o gyfle i chi ddangos eich plu yn ystod Gorffennaf ac Awst.

Y Sioe Frenhinol

Eisteddfodwr digon llugoer wyf i, ond rwy'n hoff o sioe. Eleni mi es i Lanelwedd ar y diwrnod gwlypaf un. I wneud pethau'n waeth codwyd £20 arnaf am fynd drwy'r llidiart a £5 ychwanegol am gael eistedd dan do ger y prif gylch. Oni bai i'r tîm o ferlod chwim ac ystwyth y mae fy ŵyr yn aelod ohono guro timoedd cenedlaethol Lloegr, Ffrainc a'r Alban, ni fuaswn wedi cael gwerth fy arian. Ond dyna fo, sioe'r Cardis oedd hi. A oes angen dweud mwy?

• • •

Sefyll yr oeddwn ar bwys adeilad Parry Williams ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Ni all neb wneud hynny heb ddwyn i gof ei sonedau nodedig. "Syriaswn dramp ar y ffordd" meddai'r bardd yn un ohonynt. Syriodd hithau finnau, y ferch o Siapan nad oeddwn



Adeilad Parry Williams

erioed wedi ei gweld o'r blaen, a hynny mewn Cymraeg glân gloyw. Roedd newydd ddod yr holl ffordd yn un swydd i ymuno â'r Ysgol Haf flynyddol i ddysgwyr, un o saith deg saith i ymrestru ar y cwrs. Ar gwrs o'r fath y duedd yw i ni diwtoriaid gyfarch gyntaf gan obeithio am ymateb call. Ond roedd gan hon hyder i ysgogi sgwrs. Yn ystod ein sgwrs dywedodd fel y mae nifer yn cyfarfod unwaith y mis yn Nhokyo i ymarfer eu Cymraeg. Un arall a deithiodd o'i gwlad yn unswydd oedd merch o Wlad Pwyl, gwlad lle dysgir Cymraeg mewn dwy brifysgol. Ac yna'r gŵr ifanc o Galiffornia a ddysgodd ei Gymraeg yn Havard, un o brifysgolion amlycaf America. Mae dyn yn rhyfeddu at ymroddiad ac aberth y bobl hyn a'u tebyg. Dylai godi cywilydd ar ambell Gymro a Chymraes, dylai'n wir.

• • •

Yn ystod Awst cynhaliwyd angladd tirfeddiannwr lleol, cyn swyddog milwrol a chyn feistr y cŵn hela. Un o'r crachach fel y galwn ni ei fath, aelod o ddosbarth a fu'n Saesneg eu hiaith a Seisnig eu hagwedd ers chwe chanrif a mwy. Ond arhoswch. Un diwrnod meddai wrthyf "wyddoch chi be, mi hoffwn Gymraeg yn fy angladd". Ac fe gafodd. Fel y digwyddodd, roedd y ddau ohonom ni oedd yn offeiriaid yn yr angladd yn Gymry Cymraeg, gyda fy nghyd offeiriad wedi gwasanaethu dan yr ymadawedig yn y fyddin. Do, cafwyd ymbiliau Cymraeg a'r anthem genedlaethol Gymraeg hefyd. Rai blynyddoedd yn ôl fe'm cyflogid i ddysgu Cymraeg i ferch o dirfeddiannwr yn ardal y Bala pan roedd yn ddisgybl mewn ysgol breswyl ddrudfawr yn ardal Croesoswallt. Pethau fel hyn, er yn fychain ynddynt eu hunain, sydd yn codi calon dyn fel fi ac eraill tebyg.

Atgyweiriadau Abertawe ac Aberhonddu

Dwy stori i godi calon y mis hwn, a'r ddwy yn esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

Pan ymwelodd Steve Edwards a Victoria Hope o Lundain â'u teulu yn ardal Aberhonddu, fe aethon nhw am dro i eglwys Sant Cynog ym mhentref Bochrwd, a 'syrthio mewn cariad' â'r eglwys, fel maen nhw'n dweud. Gyda'r ddau'n gariadon, gwnaeth y ddau ymholiadau a fydden nhw'n cael priodi yno, a rhoddwyd caniatâd iddyn nhw wneud hynny.



Eglwys Bochrwd

Serch hynny, deallodd y cwpl yn fuan nad oedd clychau'r eglwys wedi canu ers peth amser. Er y byddai'r newydd wedi digalonni'r rhan fwyaf ohonom, neu'n sicr ein siomi, nid felly Steve a Victoria. Penderfynodd y ddau deithio cyfanswm o 340 milltir o Lundain ac yn ôl ar nifer o benwythnosau er mwyn atgyweirio'r clychau.

Trawsnewid

Rheolwr prosiect mewn banc yn ninas Llundain yw Steve, ond roedd ef a'i ddyweddi, sy'n gweithio gyda chyfrifiaduron, yn benderfynol o glywed clychau'r eglwys yn canu ar ddiwrnod eu priodas. Dywedodd y ficer, y Parchedig Ian Charlesworth, nad oedd y clychau wedi canu ers dros ddegawd, a bod dwsinau o golomennod yn nythu yn y tŵr. Gan hynny, penderfynodd y ddau fynd ati eu hunain i glirio bron i droedfedd o faw colomennod oddi ar lawr y tŵr, ac yna glanhau'r wyneb gyda chwistrelli dŵr ar bŵer uchel. Fe wnaethon nhw hefyd osod rhwydi i gadw'r colomennod draw, a thalu am wasanaethau arbenigwr i adfer y clychau a gosod rhaffau newydd.

Wrth edrych yn ôl ar y dasg lanhau, dywedodd Steve ei fod yn waith budr, yn ddiamau, ond fod y cyfan wedi bod werth yr ymdrech. Mae'r ddau'n bwriadu priodi fis Ebrill nesaf, ac ystlyswyr Steve fydd yn seinio'r clychau ar y diwrnod mawr. Er bod y gwaith clirio mwyaf wedi'i gwblhau, mae Steve a Victoria'n parhau i deithio'n rheolaidd o Lundain i fynychu gwasanaethau yn yr eglwys.

Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n tyngu dan eich gwynt fod pobl yn dod i'ch "eglwys chi" dim ond er mwyn priodi, beth am osod her iddyn nhw? Doedd pellter na hyd yn oed llond trol o faw colomennod yn ddigon i rwystro Steve a Victoria, ac mae'r ddau bellach yn ystyried eu hunain fel rhan o'r gymuned ym Mochrwd.

Yr Eglwys Gadeiriol

Draw yn Aberhonddu ei hunan, bu tîm o bobl ifanc o Brydain, yr Eidal a Ffrainc wrthi'n ddygn am wythnos yn ystod eu gwyliau haf yn helpu i atgyweirio'r eglwys gadeiriol.

Bu'r grŵp, a oedd yn cynnwys rhai rhwng 16 a 25 oed, yn gwersylla yn yr eglwys gadeiriol ac yn gweithio'n galed ar nifer o orchwylion, fel clirio'r fynwent, adfer cadeiriau, ailgodi wal a



Steve a Victoria

chodi a datod llwyfannau ar gyfer Gŵyl Jazz Aberhonddu. Bu'r criw hefyd yn clirio'r Hen ysgol ym Mhendre, a fydd yn cael ei throsi'n ganolfan deulu dan nawdd yr Esgobaeth.

Roedd yr holl wersyllwyr yn wirfoddolwyr dan gynllun 'Gwersylla yn y Gadeirlan' (Cathedral Camp), sef mudiad sy'n trefnu gwersylloedd atgyweirio mewn eglwysi cadeiriol drwy Brydain gyfan.

Dywedodd y Deon, Geoffrey Marshall, ei bod hi wedi bod yn bleser treulio amser gyda'r bobl ifanc. "Roedd hi'n wythnos brysur tu hwnt arnom ni yn ystod yr ŵyl Jazz, felly roeddem yn gwerthfawrogi pob cymorth a oedd ar gael! Rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eu holl waith, a byddwn yn annog pum eglwys gadeiriol arall Cymru i gynnal digwyddiad tebyg y flwyddyn nesaf."

Yn y llun, gwelir y tîm gyda'u tystysgrifau ger porth clos yr eglwys gadeiriol, a gafodd ei baentio yn ystod yr wythnos weithgar. Gyda'r bobl ifanc mae Rebecca Wilkinson, pennaeth cynllun Gwersylla yn y Gadeirlan, Richard Williams, sef swyddog cyswllt yr eglwys gadeiriol, a'r Deon.

Beth amdani, felly, gadeirlannau ac eglwysi Cymru? Feiddiwch chi ddilyn esiampl eglwys gadeiriol Aberhonddu?

Y Llan – Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru 0

Y Llan – Newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru 0

Y DEON *jazz*

Cyfnewidiodd Deon Aberhonddu ei gasog am ymbarél a het yn ystod yr haf pan ddaeth i'r adwy i arwain band jazz yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu eleni.Arweiniodd y Tra Pharchedig Geoffrey Marshall fand gorymdeithiol Adamant drwy strydoedd y dref pan fu'n rhaid i'r arweinydd arferol, Jim Wood, chwarae'r sousaphone yn lle cyfaill iddo a oedd yn methu bod yno mewn pryd. Benthycodd y Deon ymbarél Jim, a gwisgodd het lwyd a roddwyd iddo gan dad-cu ei wraig.

Cynhaliwyd naw o 46 cyngerdd Jazz Aberhonddu eleni yn yr eglwys gadeiriol, ynghyd â'r gwasanaeth jazz blynyddol. Daeth tua 800 o bobl i'r gwasanaeth, ac aeth hanner y casgliad – mwy na £800 – at y rhai a ddioddefodd yn sgil y llifogydd ym Mhakistan. Y pregethwr gwadd yn y gwasanaeth hwnnw oedd Canon Brendan O'Malley, sy'n diwtor yng ngholeg Llambed. Roedd yr eglwys gadeiriol werth ei gweld yn ystod yr ŵyl, gyda chynulleidfaoedd da yn y cyngherddau. Bu gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr ŵyl ymylol yn fodd i godi tua £2,000 at apêl côr yr eglwys gadeiriol, hefyd.

Cyhoeddi casgliad llenor

Ceir darlun byw a chyfoethog o Gymru hanner canrif yn ôl drwy lygaid un o lenorion a sylwebwyr mwyaf disglair a diwylliedig ei gyfnod, R. Gerallt Jones, mewn cyfrol a lansiwyd yn ystod yr haf gan wasg Y Lolfa. Hanner can mlynedd yn ôl, dechreuodd Gerallt ysgrifennu colofn wythnosol i wythnosolyn yr Eglwys yng Nghymru, *Y Llan*, ac fe'u hailgyhoeddir eleni gyda chyflwyniadau gan Glyn Morgan ac Enid Morgan dan y teitl *O Wythnos i Wythnos*.

Ceir cipolwg ar ddigwyddiadau'r dydd, personoliaethau gwleidyddol, llenyddol ac Eglwysig yn ogystal â'r syniadau a'r problemau fu'n ysgwyd y genedl mewn sawl maes, yn cynnwys yr ymboeni ynghylch yr iaith yn y cyfnod. Fel y dywed Enid Morgan am yr awdur yn ei rhagymadrodd: "Yr oedd ynddo galon yn ymboeni am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg pentrefol, ond hefyd ddiddordeb eang mewn pynciau gwleidyddol rhyngwladol a chrefyddol.



Yr oedd y rhuddin ysbrydol Cristnogol ynddo yn ffynhonnell gweledigaeth foesol anghyffredin. Ysgrifennai'n frwd ac yn achlysurol danbaid ond byth yn bersonol atgas."

Cofnod o'r cyfnod

Mae'r erthyglau hyn yn adlewyrchu bywyd Cymru ar ddechrau'r chwedegau, a chanfyddir eu diddordeb yn y ffaith eu bod yn ein hatgoffa gymaint y newid a fu yn y byd, gan gynnwys Cymru. Yn ei ragymadrodd yntau, dywed Glyn Morgan: "Yr hyn sydd yn taro dyn yn fwyaf arbennig wrth ddarllen y casgliad hwn yw, nid yn unig allu RGJ i ysgrifennu mor gaboledig, a chofier iddo ennill y Fedal Ryddiaith ddwywaith, ond ystod syfrdanol o eang ei ddiddordebau. Ar y dechrau, fel y crybwyllwyd eisoes, cawn ein hatgoffa am un fel Eichmann ac Israel, ond tua'r diwedd deuir â ni'n ôl i Gymru fach, i dawelwch Enlli, i Lŷn, yr ardal yr ymserchai'r awdur gymaint ynddi. Dichon nad gormodaeth yw dweud iddo fod yn un o leygwyr mwyaf diwylliedig yr Eglwys yng Nghymru yn ail hanner y ganrif ddiwethaf."

Ar ôl ysgrifennu'r colofnau hyn cafodd R. Gerallt Jones yrfa ddisglair mewn sawl maes, a bu'n awdur hynod doreithiog gan ysgrifennu dros 20 o lyfrau. Yn ei dro, bu'n athro Saesneg yn Ysgol Gyfun Amlwch, yn Ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, yn Bennaeth Coleg i Athrawon yn Jamaica, yn Bennaeth Coleg Llanymddyfri ac, ar ddiwedd ei yrfa, yn warden Gregynog.

Casglwyd yr erthyglau ynghyd gan ei weddw, Sŵ Gerallt Jones. Pris *O Wythnos i Wythnos* yw £9.95, a gellir ei brynu mewn siopau llyfrau Cymraeg ac ar wefan Y Lolfa: www.ylolfa.com

Cofio
Dr Enid Pierce Roberts

gan y Gwir Barchedig CLEDAN MEARS

Mae gennyf lun sy'n dweud y cwbl am waith a chymeriad Dr Enid Pierce Roberts. Llun ydyw o bererindod esgobaeth Bangor yn y flwyddyn 1992, yn dangos y pererinion yn cyrraedd pen eu taith yng nghyffiniau Aberdaron. Yn y llun mae Enid i'w "gweld" yn rhengoedd blaen yr orymdaith, ond mae hi'n hanner ymguddio tu ôl i'r croesgludwr. Y diwrnod hwnnw roedd hi'n un o'r ychydig a gafodd y fraint o groesi i'r ynys.

Mewn gair mae'r llun yn ddameg o gymeriad Enid a'i chyfraniad amhrisiadwy i fywyd yr Eglwys yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif. Roedd hi'n bwysig, yn hynod o bwysig, ym mywyd yr Eglwys yn blwyfol, ac yn daleithiol, ond doedd hi byth yn hunanbwysig.

Yr eglwys gadeiriol

Yn blwyfol roedd Enid yn aelod ffyddlon o'r gynulleidfa Gymraeg ei hiaith a addolai mewn cornel cymharol ddinod yn yr eglwys gadeiriol. Roedd y cyfarfod ar y Sul am ddeg o'r gloch y bore, ac roedd yno wasanaeth Saesneg ym mhrif gorff yr eglwys am un ar ddeg, gyda'r côr yn arwain y canu. Yn wir roedd llawer o aelodau'r gwasanaeth Saesneg yn Gymry Cymraeg eu hiaith, yn bennaf am fod eu perthnasau yn perthyn i'r côr. Ond iaith calon Enid oedd y Gymraeg, a'i dewis hi oedd ymuno â'r gweddill ffyddlon. I'r un perwyl doedd hi byth yn colli ymarfer canu dan arweiniad Cledwyn Jones wrth baratoi ar gyfer gwasanaeth y Plygain.

Cofiaf amdani hefyd yn mynychu cyfarfod yn Nhŷ'r Esgob, pan ddaeth tua deg ar hugain ynghyd i drafod. Wrth i ni wrando ar gyngor gwraig yr archddiacon i brynu peiriant golchi llestri, roedd Enid yn cyflawni gorchwyl Martha yn y gegin – meistres yr iaith yn gweithredu fel llawforwyn. Un felly oedd Enid.

Meistrolgar

Roedd yr un peth yn wir am ei chyfraniad yn esgobaethol ac yn daleithiol. Cyfeiria erthygl amdani yn *Golwg* 15 Gorffennaf at ei chyfraniad clodwiw yn y byd academaidd fel "ysgolhaig ac ieithydd meistrolgar", ond ar yr un pryd roedd ganddi'r amser i gyfrannu at dudalennau'r *Llan* ac i weithio y tu ôl i'r llenni ym mwrlwm y Corff Llywodraethol. Dyma adeg adolygiad a diwygiad y Llyfr Gweddi Gyffredin. Pwy gwell nag Enid i ofalu bod y fersiynau Cymraeg yn llythrennol ac yn ramadegol gywir?

Dyma'r cyfnod pan ordeiniwyd gwragedd i urddau sanctaidd yr Eglwys am y tro cyntaf, gan olygu tipyn o newid, nid yn unig i gynnwys a rhuddellau'r gwasanaeth, ond hefyd i eirfa'r Cyfansoddiad. Un enghraifft o hyn oedd y defnydd o'r gair "clerigwyr" – ac fe ddaeth "clerigion" i gymryd ei le. Roedd gofyn am lygad barcud Enid i oruchwylio'r holl newidiadau.

Wrth i ni gydymdeimlo â'i theulu, beth a ddywedwn am Enid wrth iddi gyrraedd pen ei thaith a chroesi i'r ynys dawel dros y lli, lle nad oes neb yn marw? Ni allaf feddwl am ddim byd gwell na'r weddi sydd ar derfyn y Te Deum:

"Pâr iddi gael ei chyfrif gyda'th saint yn y gogoniant tragwyddol"

- neu'n well fyth, aralleiriad y Parch Gwynn ap Gwilym:

"...cynorthwya'r rhai
A brynaist ti a'th waed di-fai
Rho iddynt hwy y fythol fraint
O gael eu cyfrif gyda'th saint."

Detholiad o waith cyhoeddedig Dr Enid

- A'u Bryd ar Ynys Enlli (1993)
- Eglwys Gadeiriol Bangor (1987)
- Braslun o Hanes Llên Powys 1965)
- Detholion o Hunangofiant Gweirydd ap Rhys (1949)
- Gwaith Maredudd ap Rhys a'i gyfoedion (2003)
- Gwaith Siôn Tudur (1980)
- Gwraig Orau o'r Gwragedd (2003)
- Seintiau Cymru (ar y cyd â G.J. Roberts, 1958)
- Taliesin Hiraethog : Detholion o'i Weithiau (1950)
- William Morgan a'r Beibl Cymraeg (2004)

Dr Enid Pierce Roberts – Hanesydd Llên a Diwylliant

gan DAFYDD GLYN JONES

Yr wyf bron yn sicr mai gan Dr Enid Pierce Roberts y clywais y ddarlith gyntaf ar ôl dod yn fyfyriwr yng Ngholeg Bangor ym 1959. Yr wyf yn hollol sicr o eiriau agoriadol y ddarlith honno, oherwydd mae'r nodiadau o fy mlaen y funud hon. Hanes llenyddiaeth y ddeunawfed ganrif oedd y maes, a dyma'r agoriad: 'Yn y pen draw, cyflwr cymdeithas sy'n pennu ansawdd llenyddiaeth, a diwylliant yn gyffredinol; angenrheidiau bywyd i ddechrau, a'r hyn sydd dros ben sy'n noddi celfyddyd.' Anodd meddwl am well geiriau o ddoethineb ar ddechrau unrhyw astudiaeth lenyddol, a bron na ellid eu cymryd fel arwyddair ar holl waith Enid Roberts fel hanesydd llên a diwylliant.

Y tu ôl i'r datganiad hwn mi gredaf fod dau beth. Yn gyntaf, ei hamheuaeth o unrhyw honiadau hedegog ynghylch 'yr Awen', 'ysbrydoliaeth', 'y bardd fel gweledydd' ac yn y blaen. Yn ail, ac yn bwysicach, ei chred y dylid amcanu at ddeall llenyddiaeth drwy ddeall cyfanrwydd y bywyd y mae hi'n codi ohono, y gymdeithas a roddodd fod iddi, moddion materol y gymdeithas, ei deddfau, ei harferion, ei dulliau meddwl, ei rhagdybiau. Fe awgryma ambell gyfeiriad yn ei gwaith mai gan R.T. Jenkins, yn bennaf o neb, y dysgodd hi'r egwyddor hon; sonia'n werthfawrogol am gwrs o ddarlithoedd y byddai ef yn ei gynnal ar y cywyddwyr a'u cefndir. Am hyn, yr oedd hi'n ddigon hapus i'w hystyried ei hun yn hanesydd yn hytrach na beirniad llenyddol, ac fe honnai nad oedd ganddi lawer o ddiddordeb yn yr ochr esthetig fel y cyfryw: pinsiad o halen a gymerem ni, ei disgyblion, gyda'r honiad hwnnw, a ffôl fyddai gwarafun yr enw 'beirniadaeth' ar y toreth astudiaethau a gynhyrchodd ar bedair canrif o lenyddiaeth Gymraeg.

Llenyddiaeth

Trafododd gryn dipyn, fel y deuai galw, ar lenyddiaeth werinol – byd yr anterliwt, yr almanac a'r faled, a deil ei hastudiaeth o 'Hen Garolau Plygain' (1954) yn awdurdodol ac yn glasur. Ond ei hoffter mawr oedd llenyddiaeth uchelwrol Cymru yn niwedd yr Oesau Canol, a thrwy gyfnod y Dadeni Dysg, ac ymlaen hyd yr ail ganrif ar bymtheg. Yr amodau a'r amgylchiadau a roes fod i lenyddiaeth ddisgleiriaf y Gymraeg yn y cyfnodau hynny, dyna ei maes a'i diddordeb mewn gwirionedd. Drwy'r 1960au a hyd at ganol y 1970au cyhoeddodd gyfres o ysgrifau cyfoethog, bron yn flynyddol, yn *Nhrafodion* Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych; un rheswm am hyn oedd cefnogaeth y golygydd, Frank Price Jones, a'r rheswm arall oedd ei hargyhoeddiad hi o bwysigrwydd ardaloedd Hiraethog, Dyffryn Clwyd, Iâl a Maelor mewn adfywio, ymgeleddu a chynnal y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Y dyddiau diwethaf hyn bûm yn ailddarllen detholiad o'r ysgrifau. Adnewyddu fy meddwl oedd y bwriad, ond y mae rhamant mewn ffeithiau, yn y darlun cywir o ddyn a'i gefndir, a dyna'r rhamant sy'n cydio ynom wrth ddarllen ei gwaith.

Coron ei llafur ysgolheigaidd yw ei golygiad aruthrol o holl waith Siôn Tudur, dwy gyfrol helaethlawn lle daw Cymru a Lloegr Oes Elisabeth yn fyw o'n cwmpas. Ambell dro byddai rhai ohonom yn awgrymu wrthi y dylai wneud cyfrol neu ddwy o'i hysgrifau, ond cyndyn oedd, am ryw reswm. Enwaf y ddwy ddarlith 'Uchelwyr y Beirdd' (1975-6) fel y cyflwyniad gorau a gafwyd erioed, ac y gellir ei ddychmygu fyth, i gefndir llenyddiaeth yr Oesau Canol diweddar. Maent yn dweud wrthym yn glir pwy, beth, oedd yr 'Uchelwyr' hyn: eu hachau, eu



Eglwys Gadeiriol Bangor

ond cefais fy hun yn ymdroi gan ymgolli unwaith eto yn y sefyllfaoedd, yr amgylchiadau, y byd cyfan y llwyddodd hi i'w ail-greu wrth drafod Iolo Goch, Siôn Tudur, y Salsbrïaid a'u cysylltiadau, teulu Plas Iolyn, Catrin o Ferain, beirdd Eisteddfodau Caerwys a sawl cymeriad arall. Yr un pryd ni byddai ei gwlad enedigol, Powys Wenwynwyn (neu Sir Drefaldwyn) byth ymhell o'i meddwl, a byddai dweud 'Dafydd Llwyd o Fathafarn' yn ddigon i'w chychwyn ar y trywydd. Cofiai, fel pob gwir hanesydd, mai dweud stori yw dechrau a diwedd y dasg; ymfalchïai ei bod yn perthyn i deulu a bro o gyfarwyddiaid.

Chwarddai am ben rhamantwyr, a saethai hwy i lawr yn ddigon sydyn; priodasau a'u cysylltiadau, eu moddion cynhaliaeth a'u buddiannau materol, eu dysg a'u diwylliant, eu crefydd a'u credoau.

Ac yn sicr nid anghofir eu bod yn byw mewn tai, yn bwyta bwyd, yn gwisgo dillad ac yn trin offer. Cawn doreth o wybodaeth am y pethau hyn, sydd â lle mor bwysig yn y farddoniaeth ei hun; nid toreth ddi-drefn chwaith, ond detholiad pwrpasol, fel bod yr wybodaeth gefndirol yn goleuo'r farddoniaeth, a dyfyniadau o'r farddoniaeth yn eu tro yn goleuo'r cefndir. Yr oedd ganddi wybodaeth fanwl, ddychmygion yr un pryd, o fan a lle; yr oedd adnabod y dyn yn golygu adnabod ei wlad.

parhad ar y dudalen nesaf

parhd o dudalen 8

Gweledigaeth

Y tu ôl i'r ymdriniaethau mae gweledigaeth bersonol, gyfannol. Gwyddai hi yn iawn fod yna elfennau annibynnol, pryfoclyd a dadleuol yn y weledigaeth honno. Fe'i mynegodd yn gynnil ond ysgubol tua dechrau'r ddarlith gyntaf ar 'Uchelwyr y Beirdd', trwy gyfeirio at 'y flwyddyn dyngedfennol honno, 1282, y flwyddyn yr achubwyd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant brodorol'. Ni chododd neb i'r abwyd. Pe bai rhywun wedi beiddio gwneud, gwn na byddai'r ddarlithwraig fawr o dro yn cyfiawnhau ei dadl. Credai hi fod y tywysogion Cymreig erbyn y drydedd ganrif ar ddeg mewn brys mawr i droi'r Eingl-Normaniaid, ac un dystiolaeth a roddai yw priodasau plant Llywelyn Fawr. Credai fod yr uchelwyr yn ddosbarth Cymreiciach, mwy gwlatgar a mwy cyfrifol, a bod dyfod y rhain i'r blaen o dan y goron Seisnig wedi bod yn achubiaeth i'r Gymraeg a'i llenyddiaeth. Yn ddigon cyson â hyn, y brenhinoedd Tuduraidd oedd ei harwyr gwleidyddol. Hen uniongrededd haneswyr Cymru, a llawer o'r beirdd, sydd yma, ond rhywbeth eithaf 'gwleidyddol anghywir' yng nghylchoedd llenyddol Cymraeg ail hanner yr ugeinfed ganrif. Yr oedd rhai ffigurau eiconig yr oedd hi'n bur sgeptig yn eu cylch, ac yn mwynhau datgan hynny: pennaf yn eu plith, Owain Glyndŵr ac Ann Griffiths! Ni ddadleuais erioed â hi ynghylch Morgan Llwyd ('ddim llawn llathen') nac S.R. ('ffarmwr sâl')! Gwae nofelwyr a oedd yn 'brin o naws Cymru Fu', ac wfft i'r cwmni helaeth hwnnw, haneswyr a ryfygai drafod Rhyfeloedd y Rhos heb wybod dim am farddoniaeth Gymraeg.

Wedi dioddef afiechyd difrifol yn ei phedwar-ugeiniau ac wedi dod trwyddi, cymerwyd hi heb nemor rybudd o ganol ei hymchwiliadau a'i diddordebau a'i gweithgarwch, yn 92 oed. Gadawodd inni glasuron o egluro a dehongli cyfnodau o'n traddodiad, a deil i lefaru ynddynt wrth bawb ohonom a gafodd ei hadnabod.

RHWNG Y CLORIAU

Atgofion BRIAN PRICE, Llandinorwig

Darllenais ym Mhapur Bro *Plu'r Gweunydd* yn ddiweddar fod y Doethur Enid P. Roberts wedi bod yn Neuadd Llanerfyl yn ei bro enedigol yn Sir Drefaldwyn yn hel atgofion gyda theulu a chydnabod. Cwta ddeufis wedyn roedd wedi ein gadael ni.

O ddarllen, daeth atgofion i minnau, gan ddechrau fel prentis rhwymwr llyfrau yn y Brifysgol ym Mangor ym 1962. Roedd ganddi bob amser ddiddordeb yn ein gwaith, a thros y blynyddoedd rhwymwyd cyfrolau *Cylchgrawn y Bwrdd Gwybodau Celtaidd* iddi, ynghyd â sawl trysor prin yr oedd hi wedi cael gafael arnynt. Rhwymwyd rhai ohonynt mewn lledr, ac un tro heb yn wybod i ni, roedd wedi bod yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn arddangos ein gwaith. Wedi dod yn ôl gartref, galwodd y diwrnod canlynol ac ailadroddodd gyda balchder iddi glywed canmoliaeth i waith rhwymo llyfrau ym Mangor.

Er iddi ymddeol yn 1978, byddai'n dal i gerdded i fyny i Ffordd y Coleg o'i chartref ar Ffordd Farrar gyda gwaith, ac yn falch o sgwrs ar ôl cyrraedd. Hoffai sgwrsio am y dyddiau pan oedd yn fyfyriwr, a chymharu hynny gyda byd myfyrwyr heddiw. Un bore, cofiaf iddi sôn ei bod hi wedi galw wrth y ddesg yn y Llyfrgell am ei bod hi eisiau cael mynediad i ystafell y llyfrau prin. Roedd wedi gwneud hyn ganwaith, ond y bore hwnnw, a hithau wedi ymddeol, rhoddwyd ffurflen iddi i'w llenwi. Dywedodd wrth y ferch y tu ôl i'r ddesg mai'r un oedd hi cyn ac wedi ymddeol, ynghyd ag ychydig eiriau eraill!

Pan fyddai gwasanaethau arbennig yn yr eglwys gadeiriol ym Mangor, fel Gŵyl Deiniol a sawl achlysur arall, byddai plwyfi'r Esgobaeth a aethai yno i addoli yn cael croeso arbennig ganddi.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf prinhaodd yr ymweliadau â'r uned rhwymo cyfrolau, ond byddai galwad ffôn bob hyn a hyn yn dweud bod pecyn ar ei ffordd o 'Celynnin'.

Ychydig o atgofion yn unig am wraig hynod, a braint oedd cael ei hadnabod.

Mae gan Swyddfa Cymorth Cristnogol yng ngogledd Cymru gyfeiriad newydd.
O hyn ymlaen, cyfeiriwch bob gohebiaeth at y staff yn 106 Stryd Fawr, BANGOR, Gwynedd LL57 1NS. Gellir cysylltu ar y ffôn drwy ddeialu 01248 353574.

EGLWYS DEWI SANT, CAERDYDD
ESGOBAETH LLANDÂF

Mae angen FICER ar gyfer eglwys y cynhelir ei haddoliad a'i gweithgareddau yn gyfan gwbl yn yr iaith Gymraeg.

Cyfle unigryw, felly, i wasanaethu anghenion siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a'r ardal.

Ceir manylion llawn gan

Gaplan yr Archesgob, Llys Esgob, Lawnt y Gadeirlan, Llandâf, Caerdydd CF5 2YE
drwy ffonio 02920 562400 neu anfon e-bost:
chaplain.archbishop@churchinwales.org.uk

Ffrind ac ysbrydoliaeth

Canon TEGID ROBERTS

Grŵp astudio'r Beibl

Daeth ton o dristwch drosof pan ddaeth y newydd o Gymru i'r Gaiman, Patagonia, am farwolaeth Dr Enid. Roeddwn yn edmygwr mawr ohoni fel Cristion, fel eglwyswraig, fel ysgolhaig disglair yr iaith Gymraeg, ac fel un oedd yn ymddiddori'n fawr yn hanes Cymru. Yn fwy na hynny, roeddwn yn meddwl y byd ohoni fel ffrind.

Yn fy llythyr olaf ati ym mis Mai eleni, roeddwn yn dweud wrthi gymaint yr oeddwn yn edrych ymlaen at gael ei gweld eto a chael sgwrs wyneb yn wyneb â hi yn ei chartref ym Mangor. Er fy mod wedi symud i ofalaeth Llanwnda a Llandwrog, byddwn yn galw heibio 'Celynnin' Ffordd Farrar yn aml, ac yn ei chwmni difyr, yn cael cyfle i roi'r byd yn ei le, a chael gwybod tipyn o hynt a helynt yr eglwys gadeiriol, oedd mor agos at ei chalon.

Yr eglwyswraig

Roedd addoli Duw a myfyrio ar ei Air yn rhan annatod o fywyd Dr Enid. Er i mi ei chyfarfod yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf, yn y flwyddyn 2000 y deuthum i'w hadnabod yn dda, pan benodwyd fi gan Esgob Saunders yn Is-Ganon yn yr eglwys gadeiriol. Roedd hi wastad yn ei sedd yng ngwasanaethau Cymraeg yr eglwys gadeiriol, bob bore a phrynhawn Sul - haf a gaeaf yn ddi-ffael. Bu'n gymorth mawr i mi fel un oedd yn newydd i drefniadaeth y Gadeirlan, yn enwedig gyda'r gwaith ychwanegol oedd gennyf o groesawu myfyrwyr o'r Brifysgol, athrawon a disgyblion yr ysgolion lleol, a phlant yr Ysgolion Sul i Fam Eglwys yr Esgobaeth. Yno, yng Nghadeirlan Deiniol Sant, oedd ei hail gartref ysbrydol, oherwydd Llangadfan yn Nyffryn Banw, heb os nac oni bai, oedd y cartref ysbrydol cyntaf, ac o bosib y pwysicaf.

Yn fuan wedi i mi ddechrau ar fy ngorchwylion yn yr eglwys gadeiriol, cafodd Nant a minnau, ynghyd â Huw ein mab hynaf, wahoddiad i ymuno â'r grŵp o gyfeillion iddi oedd yn cyfarfod yn ei chartref yn fisol, dan gadeiryddiaeth y diweddar Ganon Glyndŵr Williams, i drafod rhannau o'r Beibl yn Gymraeg. Dyna fraint oedd honno! Roedd y trafodaethau yn ysgol ynddi ei hun, ac i goroni'r cyfan byddai paned o de neu goffi, ynghyd â bisgedi blasus.

Unwaith y flwyddyn byddai aelodau'r Grŵp Beiblaidd yn mynd ar wibdaith i wahanol leoedd yn yr Esgobaeth. Wedi dewis yr ardal i ymweld â hi, byddai'n dod ataf i drefnu'r cludiant, y daith a'r lleoliadau. Yna byddai'n gwneud ei gwaith ymchwil ac yn cyflwyno taflenni o wybodaeth i mi i'w dyblygu. Gwaith pleserus i mi wedyn oedd rhwymo'r taflenni hynny'n llyfryn, fel bo pawb ohonom, oedd wedi gwrando arni yn annerch, yn cael trysor o wybodaeth i'w gadw.

Yr hanesydd

Cymaint oedd ei diddordeb a'i gwybodaeth am hanes cynnar yr eglwys Geltaidd yng Nghymru a hanes Cymru gyfan, yn enwedig hanes y seintiau cynnar a beirdd y Canol Oesoedd, fel y dywedodd rhywun wrthyf unwaith yn siŵr ei bod yn adnabod pob un o'r Seintiau'n bersonol!

Fel Cadeirydd Fforwm Hanes Cymru, ati hi y byddwn yn mynd i gael gwybodaeth am hwn a llall yng nghyddestun hanes, gan wybod y byddai'i hateb bob amser yn fwy na digon i fodloni fy ymholiad. Roedd hi bob amser yn barod i roi sgwrs ar hanes y Seintiau. Safodd ar ei thraed am bron i awr a rhoi anerchiad bythgofiadwy ar y testun 'Trigfan y Trisant' ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes Prifwyl Maldwyn a'r Gororau ym Meifod yn y flwyddyn 2003.

Rwy'n cofio hi'n dweud wrthyf unwaith ei bod hi'n ddyletswydd foesol ar y rhai oedd wedi cael eu breintio â doniau academaidd i rannu ffrwyth yr ysgolheictod oedd ganddyn nhw â phobl eraill. Rwy'n credu bod ei geiriau yn grynhoad perffaith o'r unigolyn doeth a disglair, a'r hyn oedd hi fel person.

Colli ffrind

Bu Dr Enid yn ffrind da i mi, bob amser yn gefnogol a mawr ei charedigrwydd a'i chymwynas mewn sawl maes i'm teulu. Bydd bwlch mawr yn yr eglwys gadeiriol ar ei hôl a bydd yn chwith i mi wrth fynd i fyny at uwch-allor y Gadeirlan, edrych ar seddau ochr ddeheuol y Côr, a chofio'r fan lle'r eisteddai.

Ond roedd Dr Enid, ddywedwn i, yn ffrind hefyd i bob Cymro a Chymraes oedd yn addoli gyda'r Eglwys yng Nghymru. Bu'n gofalu bod cyfieithiad cywir, graenus a deallus ar gael o Gyfansoddiad ein Heglwys. Bu'n ddiflino yn ei hymdrechion i gefnogi a gwarchod *Y Llan*, yr unig gyhoeddiad Cymraeg ar gael bellach i eglwyswyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Roedd hi'n aelod gwerthfawr a brwdfrydig o'r pwyllgor y cefais i'r fraint o'i gadeirio am bum mlynedd. Hoffwn feddwl y bydd y golygydd newydd, pwy bynnag y bydd ef neu hi, yn cofio hynny ac yn cynnal y misolyn oedd mor agos at galon Dr Enid.

Braint oedd cael ei hadnabod a huned ei henaid hoffus yn y tangnefedd tragwyddol.

EIN HEGLWYS NI

Sylw i esgobaeth a dinas Bangor y tro hwn, a chyfle i roi ar gof a chadw rai o sylwadau Dr Enid Pierce Roberts am fan lle treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes. Yn gwbl nodweddiadol o'i gwaith, mae yma drysorfa o wybodaeth wedi cael ei chyflwyno mewn ffordd ddealladwy a difyr.

Bangor yw'r hynaf o esgobaethau Cymru: hi yw'r esgobaeth diriogaethol hynaf yn y Deyrnas Unedig a safle ei chadeirlan yw'r un a ddefnyddiwyd yn ddi-dor am yr amser hwyaf.

Daeth Deiniol Sant a'i fynachod i Fangor yn 525 O.C. ac adeiladu'r eglwys gyntaf yno, gan amgylchynu'r darn eang o dir o'i chwmpas â 'bangor', clawdd gwiail. Y tu mewn i'r cylch trigai cymuned gymysg o fynachod, clerigion priod a theuluoedd lleyg (gweithwyr, masnachwyr a gweithwyr amaethyddol gan mwyaf). Dyma batrwm arferol mynachlog Geltaidd neu 'glas' - patrwm hollol wahanol i fynachlogydd cyfnod y Normaniaid. Yn, 546 O.C. neu cyn hynny, efallai, gwahoddodd Maelgwn, Brenin Gwynedd, Deiniol i fod yn Esgob ar 'fy nhiriogaeth oll'. Felly, yn wahanol i'r holl esgobaethau Celtaidd eraill, roedd Bangor yn esgobaeth diriogaethol o'r dechrau. O'r 'clas' bach dechreuol tyfodd y ddinas bresennol o amgylch y gadeirlan, o dan nawdd y tywysogion Cymreig. Dan gysgod y sefydlogrwydd a'r amddiffyniad a roddent hwy âi'r mynachod allan i efengylu'r deyrnas, yn unol â'r patrwm Celtaidd traddodiadol. Sefydlodd seintiau Celtaidd eraill gelloedd yn y cylch. Ym mhlith y rhain yr oedd Cybi (yng Nghaergybi), Seiriol (Penmaenmawr a Phenmon), a Chadfan yn Nhywyn.

Yn ystod y cyfnod canoloesol roedd tair Archddiaconiaeth yn yr esgobaeth: Môn, Bangor a Meirionnydd. Yn ddiweddarach daeth Archddiaconiaethau Bangor a Môn at ei gilydd i ffurfio dwy Archddiaconiaeth: Bangor (a Môn) sydd â saith deoniaeth ynddi, a Meirionnydd sydd â phum deoniaeth ynddi. Nid yw ffiniau'r esgobaeth wedi newid fawr ddim ers hynny.

Deiniol Sant a Bangor

Gwyddom yn eithaf sicr pwy oedd Deiniol: Deiniol fab Dunawd fab Pabo Post Prydyn - Pabo amddiffynnydd Prydyn yn yr Hen Ogledd, fel y gelwid gogledd Lloegr a de'r Alban - aelod o isgangen o deulu brenhinol a grybwyllir droeon mewn achau cynnar a hen ganu. Daeth ei hynafiaid i ogledd Cymru i ganlyn y mudo mawr o'r Hen Ogledd tua chanol y bumed ganrif (mae cryn ddadlau ynghylch yr union ddyddiad); cedwir cof am ei daid yn Llanbabo ym Môn. Y mae'n debyg eu bod hwy, ac eraill o'u cydymfudwyr, eisoes wedi derbyn Cristnogaeth trwy genhadaeth Sant Ninian a'i ddilynwyr a disgynyddion y rheini.

A barnu oddi wrth dystiolaeth arysgrifau sy'n perthyn i ddiwedd a bumed ganrif neu ddechrau'r chweched, yr oedd ychydig Gristnogion yng ngogledd Cymru cyn cyfnod Deiniol; nodir mai sacerdos, offeiriad neu efallai esgob, oedd SANCTINUS a enwir ar garreg Eglwys Rhos, a BIVATIGIRNUS ar garreg Trescawen (Llangwyllog), ac y mae'r garreg sy'n awr yn eglwys Aberdaron, ond a fu gynt ar fynydd Anelog, yn cofáu SENACUS, offeiriad (presbyter), CUM MULTIDUTINEM FRATRUM, gyda llu mawr o frodyr, yn awgrymu sefydliad crefyddol.

Deiniol ar daith

Cymerodd hir amser i Gristnogaeth fagu gwreiddiau a lledaenu; dim ond grwpiau bychain o Gristnogion, ar wasgar, a geid yn y canrifoedd cynnar. Ddechrau'r chweched ganrif gallwn synhwyro cenhadu bwriadol, a hwnnw'n ymledu i'r gorllewin a'r gogledd o dde-ddwyrain Cymru, lle'r oedd Illtud, 'athro coeth bron holl Brydain', wedi sefydlu yn y lle a elwir heddiw Llanilltud Fawr. Y mae'n bosibl awgrymu teithiau rhai o'r seintiau oddi wrth yr eglwysi a gysegrwyd ar eu henwau.

Wedi cryn grwydro - i Went, Penfro, Ceredigion, efallai i fyny afon Dyfi a throsodd i ddyffryn Dyfrdwy, Llanuwchllyn, Llanfor, Bangor Iscoed, Gwyrddymp, Marchwiail, Penarlâg - cyrhaeddodd Deiniol a'i ddilynwyr deyrnas Maelgwn, brenin Gwynedd, ger aber dwyreiniol afon Menai. Beth bynnag oedd ei ffaeleddau, yr oedd Maelgwn yn noddwr hael i'r seintiau, a'r tebyg yw mai ef a roddodd y tir i Ddeiniol. Wedi cael y tir cododd Deiniol ffens o'i amgylch trwy yrru polion ar eu pennau i'r ddaear a phlethu canghennau rhyngddynt; y term technegol am ffens o'r fath oedd 'bangor'. O fewn y tir a amgylchynwyd, y 'llan', cododd eglwys fechan, yna cell i fyw ynddi, a'i holl ddilynwyr, yn unigolion a theuluoedd, yn codi eu hanheddau eu hunain. Felly y sefydlwyd y fynachlog Geltaidd neu'r clas.

Byddai bywyd teuluol mewn clas, yr oedd rhyddid i offeiriaid Celtaidd ac offeiriaid Cymru briodi os oeddent yn dymuno. Nid offeiriaid mo'r dynion i gyd, rhaid wrth ffermwyr a chrefftwyr i ofalu am y gymuned. Ac nid mynaich caeth i'r fynachlog oedd yr offeiriaid; byddent yn mynd allan i'r wlad oddi amgylch i efengylu, weithiau'n mynd gryn bellter, yn aros am ysbaid a sefydlu eglwysi newydd, ond gan gadw o fewn teyrnas Maelgwn mae'n bur debyg. O bryd i'w gilydd byddent yn dychwelyd at eu harweinydd, am ysbrydoliaeth, cefnogaeth ac arweiniad, ac felly'n raddol daeth Bangor yn fam-eglwys Gwynedd, theyrnas Maelgwn, a Deiniol, ei thad ysbrydol, yn esgob.

Bu farw Maelgwn o'r pla ofnadwy hwnnw, y fad felen, a ysgubodd drwy'r wlad yn 547 O.C., felly rhaid bod Deiniol wedi ei gysegru'n esgob cyn y difrod trychinebus; dyna pam yr awgrymir c. 546 O.C. fel dyddiad sefydlu esgobaeth Bangor. Y mae'n bosibl iddi gael ei sefydlu ychydig cyn hynny; byddai dyddiad wedi hynny'n bur annhebygol.

Er nad Deiniol a ddaeth â Christnogaeth i'r ardal, yn ei gyfnod ef y daeth Cristnogaeth yn grefydd sefydlog, "gyfundrefnol" Gwynedd.

Arhoswch Funud

gan LONA JONES

Yng nghanol mis Gorffennaf, a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymddangos yn ddiogel o bell i ffwrdd, addewais i'r golygydd yr adolygwn y Cyfansoddiadau i'r *Llan,* gan anghofio y byddai yn anterth haf pan ddeuai'r amser i mi gywiro f'addewid. Mae haf yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb, wrth gwrs, ond i mi y mae'n golygu gwaith caled wrth i mi gyflenwi i staff sydd ar eu gwyliau mewn llyfrgell ac eglwys, a hynny ar ben gwneud fy ngwaith fy hun. A choeliwch neu beidio, mae'r haf yn gyfnod prysur yn y Llyfrgell am fod achyddwyr yn achydda yn ystod eu gwyliau hwy, nes creu effaith deublyg - mwy o gwsmeriaid nag arfer, ond llai o staff i ymdrin â hwy.

Mae pobl yn credu mai gwaith diymdrech a hamddenol yw llyfrgellyddiaeth - job â chadair wrthi, fel yr arferai fy mam ddweud - ond gwae fi, nid felly y mae mewn difrif yr adeg hon o'r flwyddyn. Y mae gennyf swyddfa gyfan i mi fy hun, ond prin edrych arni a wneuthum drwy'r wythnos hon i gyd. Ac mae hyn wedi effeithio ar fy ngallu i gywiro f'addewid i'r golygydd druan oherwydd, er fy mod wedi cael cyfle i ddarllen cynnyrch yr Eisteddfod, nid wyf wedi cael cyfle i ymchwilio iddynt a myfyrio uwch eu pennau. Rhyw fras olwg digon bas fydd yn y golofn hon, y mae gennyf ofn, ond gobeithio y byddaf yn ysgogi rhywun yn rhywle i ymateb.

Awdl arbennig

Mae gweld y Cyfansoddiadau am y tro cyntaf yn rhoi rhyw ias bob blwyddyn, cyfle i weld pwy sydd wedi ennill a chyfle i weld pwy sydd wedi cael eu dyrchafu i fod yn feirniad a chyfle i feirniadu'r beirniaid hefyd, wrth gwrs. A nodi, eleni, gyda thristwch, absenoldeb beirniadaeth Iwan Llwyd a oedd wedi tyfu o fod yn 'enfant terrible' ein llên i fod yn un o'i chewri, ac yn un o'r ychydig a allai gyflwyno i'r modern safonau a thraddodiadau gorau'r clasurol.

Tudur Hallam

Ac fe gafwyd awdl deilwng iawn, yn fy marn i - awdl y byddai ei gwrthrych, Hywel Teifi, wedi ymhyfrydu'n fawr ynddi, yr wyf yn siŵr. Mae'n awdl nodweddiadol Gymreig ym mhob ffordd, oherwydd y mae'n cyfuno traddodiadau Celtaidd eu naws. Onid adar Rhiannon yw'r adar hyn i fod? Onid ydynt yn canu gwawr dadeni'r iaith, fel y canai'r adar gynt i ddarogan nefoedd y Celtiaid?

Cyrraedd y nod

Ac ni allaf lai na theimlo fod yma alw ar glasuron ein rhyddiaith yn ogystal. Mae yma olion deialog Llyfr y Tri Aderyn, mi dybiaf, yn ogystal ag adlais o weledigaethau Ellis Wynne. Mae'n awdl sy'n darllen fel rhyw fath o gywasgiad o'n llenyddiaeth gyfan wrth iddi adleisio gwahanol elfennau ein barddoniaeth a'n rhyddiaith, a gwneud hynny mewn iaith ac ieithwedd lân a grymus. Cefais flas ar hon - mae'n awdl 'sexy', fel y dywedodd un o feirniaid cadair Eisteddfod Llanelwedd am awdl fuddugol yr Eisteddfod honno!

Ar nodyn mwy difrifol, mae'n awdl sydd yn ymgyrraedd a safonau'r awdlau diweddar, mae'n sefyll cyfuwch ag awdlau'r gorffennol ac mae'n llawer iawn mwy na cherdd orau'r gystadleuaeth arbennig hon. A chredaf fi ei bod hi yn bwysig fod y cynnyrch arobryn yn cyfarfod â safon y gorffennol - i'r eisteddfod, y cystadleuydd a'n llenyddiaeth ni. Ar dro, wrth gwrs, mae'n anochel fod gwobrwyo rhywbeth sydd wedi curo gweddill y cystadleuwyr, ond mae'n well pan mae'r hyn a wobrwyir cystal â safon cyn-enillwyr, pan mae'r enillydd yn cael gradd prifysgol yn hytrach na dim ond pasio lefel A, fel petai.

Y Goron

Ond tipyn o siom oedd cerddi'r Goron i mi, beth bynnag. A bod yn gwbl onest, fe'u cefais yn anodd ei deall hyd yn oed ar ôl i mi ddarllen y beirniadaethau. Ni allwn yn fy myw weld dim a ganai ynddynt, rhywsut, er gweld ambell i ddelwedd drawiadol a thro da ar ymadrodd, fe'm gadawyd heb fy symud a heb fy nhanio ganddynt. A chredaf fod hyn yn mynd yn wir am gerddi'r Goron yn ddiweddar, mae'r mesurau caeth fel petaent yn ysgogi gwell barddoniaeth a hynny, efallai, am fod gofynion mesur ac ati yn gorfodi mwy o reolaeth ar ffurf sydd, yn ei dro, yn rhoi mwy o reolaeth a thyndra ar y dweud. Y mae yng ngherddi'r Goron symbolaeth a haniaethu tywyll iawn i mi, beth bynnag, ac efallai yr hoffwn y cerddi petawn yn eu cael gyda nodiadau esboniadol - y fi sydd yn dwp, diau, a gwell i mi dewi cyn i'r beirdd a'u beirniaid droi arnaf a'm llarpio!

Glenys Roberts

Rhyddiaith

Fe gefais fwy o gyfle ar y ddwy nofel, *Adenydd Glöyn Byw,* Grace Roberts, a *Gwenddydd,* Jerry Hunter.



Mae i'r ddwy wenddidau a chryfderau ac, o'r ddwy, *Gwenddydd* yw'r wannaf. Dyma nofel y cefais drafferth ei dilyn. Mae iddi batrwm episodig sydd yn rhwystro Jerry Hunter ar dro rhag dilyn themâu a allasai fod wedi cryfhau ei stori.

Er enghraifft, yn wyneb cyd-destun y stori, yr Ail Ryfel Byd, a'i sail hŷn hi yn hanes Myrddin a Gwenddwr, efallai y byddai ymestyn ymwneud y forwyn Gymraeg â'i meistres Saesneg a'i pherthynas â Gwen, a'u cymharu a'u cyferbynnu, wedi cryfhau a dyfnhau ei stori. Yn yr un modd, gallasai fod wedi

ehangu ei stori a'i gwneud hi'n gliriach mai symbol o ddryswch ôl ryfel yw'r goedwig, a bod Robert yn dangos ei fod wedi gwella'n gorfforol ac eneidiol a meddyliol pan mae'n ei gadael a phan mae'n gallu defnyddio ei phridd a'i daear yn sail i fywyd newydd. Nid wyf am feio Jerry Hunter yn ormodol am hyn, fodd bynnag - roedd gan y dyn gyfyngiadau hyd i ufuddhau iddynt, wedi'r cyfan.



Ond y mae tuedd yn y nofel hon i fod yn or-lenyddol, tuedd sydd gan bob nofel medal ryddiaith, a thuedd sydd yn anochel i'r gystad - leuaeth ynddi ei hun.

Un rheswm am hyn yw mai cystadleuaeth ryddiaith yw hon, ac y gellir cyflwyno cyfrol o ysgrifau neu storïau byrion iddi, ac y mae hyn fel petai yn gorfodi'r beirniaid i ddewis llenyddiaeth gelfyddydol pur yn hytrach na gwaith sy'n dweud stori yn blaen a diamwys a threfnus. Caredigrwydd â darllenydd yw dechrau, canol a diwedd trefnus! Fe'm siomwyd gan iaith ac ieithwedd y nofel hon - mae'r ddau yn lân a graenus, ond yn fflat a difywyd, braidd.

Yn hyn o beth nid yw Jerry Hunter hanner cynddrwg â Mihangel Morgan Finch, ond waeth beth ddywed y beirniaid, nid plaendra arddull yw, y mae gennyf ofn. Rhaid canmol pawb sy'n dysgu iaith ac yn ei hysgrifennu yn greadigol gyda panache Jerry Hunter, ond rhaid derbyn fod y ffaith nad oes ganddo na slang na thafodiaith naturiol yn ei wanhau. Mae'r un peth yn wir i ni Gymry Cymraeg, wrth gwrs. Gallaf gyfieithu pregeth o'r Saesneg i'r Gymraeg yn fyrfyfyr a hynny heb ymarfer, am mai'r Gymraeg yw fy iaith gyntaf a bod gennyf fwy nag un gair am syniad os ydi hi'n mynd i'r wal arnaf - ond ochr arall y geiniog hon yw bod yn rhaid i mi ysgrifennu pregeth Saesneg yn ofalus, ac yr wyf yn ymwybodol fod fy Saesneg yn dynnach a phlaenach na Saesneg Saeson go iawn am mai wedi dysgu'r iaith yr wyf. Ond y mae'r plaendra iaith hwn yn arwain at arddull foel a'r teimlad nad yw'r awdur wedi medru dweud y cwbl a fynnai. Serch hyn i gyd, fe fwynheais y nofel hon.

Y Fedal

Cefais well blas ar *Adenydd Glöyn Byw,* ac eto, mae gwendidau honno yn fwy gwendidau na rhai *Gwenddydd.* 'Chick lit' sydd yma, ac y mae dylanwad awduron megis Katy Fforde a Jill Mansell yn drwm arni. Mae yna duedd i nofelau gwobr Daniel Owen fod yn fwy darllenadwy na rhai'r fedal bob amser - am wn i nad yw cefndir y gystadleuaeth yn gofalu am hynny. Mae iddi ddechrau, canol a diwedd, ond gwendid hon, hefyd, yw ei bod hi'n darllen yn debycach i gynllun manwl nag i nofel orffenedig, ac ofnaf nad yw'r gwendid hwn yn codi o gyfyngiadau hyd cystadleuaeth, er diau fod y rheini yn bodoli. Fe'm gadawyd gyda rhyw deimlad anesmwyth fod Grace Roberts yn dibynnu gormod ar ein hadnabyddiaeth ni o batrwm sylfaenol storïau fel hyn i ddweud y stori'n llawn! A'r drwg yw bod y gwendid hanner dweud yn amlycach yn niwedd y nofel nag yn unman arall. Petai'n fater o gyfyngiad y gystadleuaeth yn unig, siawns na fyddai'r bai i weld trwy'r nofel i gyd, oherwydd byddai'r nofelydd wedi gorffen ei stori a thocio'n gyfartal trwy'r gwaith, ac nid gogr-droi tan y diwedd a charlamu'n frysiog fel y mae Grace Roberts yn ei wneud pan wêl y terfyn yn cyrraedd. Fe'm hatgoffwyd i o rywun yn dweud stori nos da wrth blentyn bach ac yn talfyrru diwedd y stori er mwyn rhoi pen ar y mwdwl.

Jerry Hunter

Ac mae gwendid mwy na hyn - mae cymeriadau Jerry Hunter yn gymeriadau llawn sy'n tyfu a datblygu mewn ffyrdd sy'n driw iddynt eu hunain a'r nofel. Nid felly cymeriadau

Grace Roberts

Grace Roberts. Ystyrier Glenys the Menace. Pwrpas Glenys yw gadael i ni sylweddoli purdeb a gonestrwydd sylfaenol Llion ac Eira a'u perthynas trwy roi cyfle i ni gymharu ei gweithredoedd hi a'u rhai hwy. Ond haniaeth llwyr yw Glenys, teip a dyna i gyd ac, eto, fe gollwyd cyfle i roi elfen ddyfnach i'r stori trwy beidio â siartio yn well ei chwymp oddi wrth ras.

Yn yr un ffordd, fe ddylid fod wedi gwneud un o ddau beth gyda Mrs Strong - un ai ei chadw yn y cefndir fel un o gyflogwyr Rhiannon (a byddai'n dal i fod wedi medru rhoi'r arian i bawb o'r cefndir, felly - yn wir, efallai y byddai ei nawdd yn ychwanegu dimensiwn i'r nofel petai hynny wedi digwydd) neu ei chyflwyno o'r cychwyn. A chan mai ei phwrpas yw rhoi cyfle i ni gymharu tlodi ei bywyd cefnog ond gwag gyda chyfoeth bywyd teuluol mwy cyffredin y tair arwres, yna fe ddylai fod wedi ymddangos reit o'r cychwyn, gan roddi cyfle i ni hefyd weld tlodi ac unigedd ei bywyd mewnfudol.

Fel y mae, mae ei chyflwyno fel cymeriad yn ei llawn dwf hanner ffordd trwy'r nofel, dim ond iddi farw a rhannu ei harian i bawb, yn colli cyfle ac yn arwain at un o gyfnodau gwannaf y nofel, sef yr adran sy'n disgrifio faint mae pawb yn ei gael, adran nodedig o gatalogaidd a diflas yn fy marn i.

Ni hoffais, ychwaith, y gwryw-gydiaeth oherwydd teimlwn mai cywirdeb gwleidyddol oedd ei gynnwys yn fwy nag angen y nofel ei hun, ac eithrio, wrth gwrs, 'garwriaeth' lladd dieithr Eira Mai gyda Guto!

Un peth y dotiais ato yn *Adenydd Glöyn Byw* oedd cryfder yr arddull a'r iaith.

Yn hyn o beth, saif Grace Roberts ben ac ysgwydd uwchlaw Jerry Hunter, ac yr oedd yn bleser darllen gwaith rhywun oedd yn gorfod tymheru cyfoeth tafodiaith yn hytrach na chrafu am air ac ymadrodd.

Cyfle i ddiolch ... a mwy na hynny



Pan fydd y rhifyn hwn yn eich cyrraedd, bydd tymor gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf eisoes wedi cychwyn. Bydd y pregethwr gwadd wedi cadarnhau y bydd ef neu hi yno, bydd y trefniadau addurno wedi'u gwneud, ac efallai y byddwch chi wedi penderfynu pwy fydd yn derbyn yr offrwm ariannol eleni. Ond os na phenderfynoch chi beth i'w wneud â'r casgliad, beth am ystyried apêl mudiadau fel Tearfund a phartneriaid eraill y Pwyllgor Argyfyngau, sy'n parhau i gasglu arian i helpu'r rhai sy'n dioddef yn sgil y llifogydd dinistriol ym Mhakistan?

Wrth i'r glawogydd beidio (a sylw cyfyngau'r byd gilio, hefyd), daw maint y dinistr yn fwy amlwg. Cafodd y llifogydd effaith ar gymaint ag **20 miliwn o bobl**. Ymhlith yr 20 miliwn mae unigolion fel Umer Hazrat, sydd i'w weld ar y dde yn y llun. "Rwy'n ddiolchgar i Dduw bod fy nheulu yn fyw o hyd," medd Umer.

Mae Tearfund a'u partneriaid yn dosbarthu cymorth brys i gynorthwyo cymaint â phosibl o bobl. Dosbarthwyd pecynnau cymorth i filoedd o bobl, ac mae eu gwaith yn parhau.

Yn eich gwasanaethau diolchgarwch eleni, beth am i ni:

- weddïo dros unigolion, teuluoedd a chymunedau sydd yn dioddef oherwydd y trychineb hwn.
- diolch am y gefnogaeth sydd wedi galluogi Tearfund i ddod â chymorth sy'n cynnal bywyd a gobaith i filoedd o bobl.
- gweddïo y bydd mwy o lywodraethau yn ymateb mewn ysbryd o haelioni.
- gweddïo y bydd staff partneriaid Tearfund a gweithwyr dyngarol eraill yn parhau i ganfod ffyrdd o gyrraedd pobl, er bod llawer o gysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu wedi'u dinistrio

Gellid hefyd offrymu'r weddi ganlynol:

Dduw Dad, rhoddwr bywyd, gobaith a nerth. Fel rhan o'th eglwys fyd-eang, codwn bobl Pacistan ger dy fron mewn gweddi. Gofynnwn y bydd dy ysbryd ymhlith y rhai yr effeithiodd y llifogydd arnyn nhw a'r rhai sy'n ymateb, gan ddwyn iachâd a thrawsnewidiad. Yn enw Iesu, Amen

Gweddi Arglwydd y Cynhaeaf

Llais 1: Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd.
Llais 2: Creawdwr daioni, boed i'th ofal tadol warchod a chynnal pawb.
Pawb: Deled dy deyrnas

Llais 1: Sancteiddier dy enw.
Llais 2: Rho i ni'r gras i'th anrhydeddu drwy'r cariad a ddangoswn yn y pethau ymarferol a wnawn.
Pawb: Deled dy deyrnas.

Llais 1: Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Llais 2: Boed i'th angerdd dros gyfiawnder a thegwch fod yn batrwm i fywyd ar y ddaear.
Pawb: Deled dy deyrnas.

Llais 1: Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
Llais 2: Helpa ni i sicrhau nad yw'r un o blant Duw'n newynu, a bod digon ar gael i bawb allu bwyta.
Pawb: Deled dy deyrnas.

Llais 1: Maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Llais 2: Cydnabyddwn drachwant y ddynolryw sy'n cyfrannu at angen y ddynolryw.
Pawb: Deled dy deyrnas.

Llais 1: Nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg.
Llais 2: Heria ni i ymdrechu at newid a thrawsffurfiad, at weledigaeth o'n byd y byddet ti'n dymuno ei gweld
Pawb: Deled dy deyrnas
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Cyfieithiad o eiriau Clare Amos

Adolygiad

Finding Hope and Meaning in Suffering,
Trystan Owain Hughes,
SPCK, 2010, £9.99
(ISBN: 978-0-281-06249-2)

Pan oedd y Parchedig Ddoctor Trystan Hughes yn 34 mlwydd oed darganfu ei fod yn dioddef o gyflwr sy'n effeithio ar yr asgwrn cefn. Nid oes modd ei wella. Cafodd driniaeth a bu yn yr ysbyty am fisoedd, ond er gwaethaf ymdrechion y meddygon mae'n dal i fod yn methu sefyll nac eistedd am gyfnod hir ar y tro. Buasech yn meddwl y buasai hyn yn ddigon i ddigalonni unrhyw un, ond y gwrthwyneb a ddigwyddodd yn achos Trystan. Bu'n gyfle iddo fyfyrio ar ei sefyllfa a gweld a oedd modd dirnad ystyr a gobaith yn y dioddefaint. Ffrwyth ei fyfyrdod yw'r llyfr hwn.

Un peth sy'n hollol amlwg ar unwaith yw bod yr awdur yn ysgolhaig ac yn ddiwinydd. Mae'r llyfryddiaeth ar ddiwedd y gyfrol yn un gynhwysfawr. Ond peth arall sy'n amlwg yw ei fod yn gyfarwydd â dysgu pobl. Bu'n ddarlithydd am gyfnod, bu'n gweithio mewn plwyfi ac mae'n gaplan prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd. Mae ganddo'r ddawn i gyfleu'r hyn sydd ganddo i'w ddweud yn hollol glir a dealladwy. Yn ei bennod agoriadol mae'n rhoi braslun o'r hyn y mae'n mynd i'w wneud ac ar y diwedd mae'n crynhoi'r hyn y mae wedi ceisio ei gyflawni. Mae ôl darllen eang yma, o blith y clasuron ac o lenyddiaeth fodern, ond nid yw'n llyfr sych o gwbl. Mae'n sylweddol ac eto'n llawn hiwmor. Mae'n werth ei ddarllen er mwyn y jôc am Pavarotti yn unig!

Dewisiadau

Mae'n dechrau ei ymresymiad trwy ddweud ein bod ni i gyd yn medru dewis beth i'w wneud pan fyddwn yn dioddef. Medrwn adael i'r profiad ein llethu'n llwyr neu fe allwn ddewis yr ychydig obaith, llawenydd neu ystyr y mae bywyd yn ei gynnig i ni yng


Trystan Hughes

nghanol y profiad. Gallwn edrych ar yr hyn sydd yn digwydd i ni mewn ffordd arbennig. Gallwn ddarganfod bod Duw yn bresennol yn ein dioddefaint. O weld hyn, a meithrin yr arferiad o fod yn ymwybodol a sut i dderbyn y sefyllfa, ('Awareness and Acceptance') fe allwn wedyn ddechrau dirnad sut y medrwn weld cariad Duw mewn mannau arbennig - ym myd natur, atgofion, celfyddyd, chwerthin a phobl eraill. Trwy edrych ar ein profiadau yn y meysydd hyn fe allwn weld eu bod yn adlewyrchu'r trosgynnol ac fe allwn ymwroli. Trwy wynebu ein dioddefaint yn greadigol fe gawn obaith ac fe welwn ystyr ynddo - dyna gyfuno'r ymarferol a'r diwinyddol.

Mae'r gyfrol hon yn trafod pwnc sy'n ein hwynebu ni i gyd yn hwyr neu'n hwyrach, ac yn cynnig canllawiau gwerthfawr, ymarferol, ynglŷn â sut i ymateb mewn ffordd Gristnogol a fydd yn cyfoethogi'n bywyd. Mae ef ei hun yn dangos bod modd byw yn llawn er gwaethaf y cyfyngiadau.

Mae hon yn gyfrol werthfawr iawn. Prynwch hi – fyddwch chi ddim yn edifar!

Cynthia Davies

Cystadleuaeth Carol Cristion 2010

Cymdeithas Emynau Cymru

Mae Cymdeithas Emynau Cymru wedi trefnu cystadleuaeth i gynnig gwobr am y garol wreiddiol orau. Cyhoeddir y garol fuddugol yn rhifyn Tachwedd/Rhagfyr y cylchgrawn cyd-wenwadol *Cristion,* a bydd awdur yr emyn buddugol yn derbyn cwpan o waith Caitlin Jenkins, Ewenni.

Rhoddir y gwpan gan Gwyn Tudur Davies a Llinos Howells er cof am eu tad, Y Parchedig Tudor Davies. Beirniad y gystadleuaeth yw'r Prifardd Tudur Dylan Jones, Caerfyrddin.

Mae rheolau'r gystadleuaeth fel a ganlyn:

1. Gall y geiriau fod ar fesur emyn dôn draddodiadol neu mewn arddull mwy cyfoes
2. Dylai pob ymgeisydd roi ffugenw yn unig ar ei g/waith ac anfon ei h/enw, cyfeiriad a rhif ffôn mewn amlen dan sêl gyda'r gwaith.
3. Rhaid anfon y carolau at y Golygydd i gyrraedd dim hwyrach na 15 Hydref 2010.

Dylid anfon y carolau at
Y Parchedig Casi Jones,
Y Ficerdy, Ffordd Caernarfon,
Y Felinheli, Gwynedd LL56 4SQ

Beth amdani felly? Os yw'r siopau mawr yn mynnu paratoi'n gynnar at ben-blwydd ein Gwaredwr, beth am i ninnau droi ein golygon at Fethlehem, a gweld i ble'r aiff yr awen â ni?

Y Gymdeithas

Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1967 yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Bala, a'i nod yw hyrwyddo diddordeb ym mhob agwedd ar emynyddiaeth Cymru – yn emynau, tonau, awduron, cyfansoddwyr a thraddodiadau. Mae'n:

- dwyn pobl ynghyd i ddarlithiau ac ysgolion undydd i ddysgu ac i drafod gwahanol agweddau ar emynyddiaeth Cymru
- casglu a diogelu defnyddiau
- hyrwyddo astudio emynau ac emyndonau
- cyhoeddi ffrwyth ymchwil yn y maes
- cysylltu â chymdeithasau emynau mewn gwledydd eraill

Os hoffech chi ymaelodi, y tâl aelodaeth blynyddol yw £10, a gallwch anfon eich taliad ynghyd â'ch enw, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn at

Mr. Dafydd Owen Roberts,
Trysorydd/Ysgrifennydd
Aelodaeth Cymdeithas
Emynau Cymru,
Tir Du, Trefor, Caernarfon,
Gwynedd LL54 5LB

Ceir ffurflen ymaelodi bwrpasol ar wefan y Gymdeithas hefyd, sef:
www.emynau.org

POSAU

Croeso i golofn bosau rhifyn Medi, a gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r haf.

Os cawsoch chi gyfle i roi cynnig ar bosau rhifyn yr Eisteddfod, mae'n debyg y byddwch chi eisiau gwybod sut hwyl gawsoch chi arni. I ddechrau, yn ôl yr arfer, dyma fel y dylai'r grid swdocw fod wedi ymddangos ar ôl rhoi'r rhifau yn eu priod le:

9	6	3	2	5	4	7	1	8
4	5	1	3	8	7	2	6	9
7	2	8	9	6	1	5	4	3
6	8	7	1	3	5	9	2	4
3	4	2	8	9	6	1	7	5
1	9	5	4	7	2	3	8	6
2	1	6	5	4	3	8	9	7
5	7	9	6	2	8	4	3	1
8	3	4	7	1	9	6	5	2

Gosodwyd deg cwestiwn hefyd, a dyma'r atebion. Yn gyntaf, torthau o fara wedi'u gwneud gyda gwenith cyntaf y cynhaeaf a gysegrir yn ystod Gŵyl Lammas, a'r cysylltiad rhwng mis Awst a chyfnod Iesu Grist yw fod y mis wedi cael ei enwi ar ôl Awgwstws Cesar, ymerawdwr Rhufain rhwng 27 CC ac 14 OC.

Brenin olaf Ffrainc, a anwyd ar 23 Awst 1754, oedd Louis XVI, a Hawaii oedd yr hanner canfed talaith i ymuno ag Unol Daleithiau America. Ateb cwestiwn pump yw mai Richard Wilson oedd enw'r arlunydd a aned yn Rheithordy Penegoes yn Awst 1714, ac ateb y chweched cwestiwn yw mai'r ffôn yw'r ddyfais a gysylltir fynychaf ag Alexander Graham Bell.

Mudiad y Groes Goch a sefydlwyd yn Genefa yn Awst 1864, a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg a ffurfiwyd ym Mhontarddulais ar 4 Awst 1962. Ateb cwestiwn naw yw 'Gomer' – dyna oedd enw barddol y gweinidog a'r emynydd Joseph Harris, ac ateb y cwestiwn olaf yw mai Dic Penderyn oedd llysenw'r Richard Lewis a grogwyd ym Merthyr Tydfil yn Awst 1831.

Beth am roi cynnig ar ddeg cwestiwn y rhifyn hwn? Dyma nhw i chi:

1. Pwy oedd ymerawdwr Japan rhwng 1926 a 1989?
2. Cartref pa un o siroedd Lloegr yw maes criced Headingley?
3. I ba fôr y mae'r afon Donwy (Danube) yn llifo?
4. Pa awdur greodd arwr o'r enw Aslan?
5. Corff llywodraethu pa ynys yw'r Tynwald?
6. Cyn ailuno gorllewin a dwyrain yr Almaen, pa un o ddinasoedd y wlad oedd prifddinas y gorllewin?
7. Rhan o ba wlad yw ynys Zealand (nid y Seland-Newydd, sylwer)?
8. Beth yw tymheredd arferol gwaed ar raddfa Celsius?
9. Beth yw'r mamal talaf sy'n bodoli erbyn hyn?
10. Sut mae cyfleu 150 mewn rhifau Rhufeinig?

Ac i gloi, dyma grid swdocw mis Medi. Hwyl i chi ar y datrys!

		7			3			
		6				1		
			6	8			4	2
3	2				5			
		9				8		
			4				7	9
8	6			7	9			
		1				9		
			8			4		

Canon Dewi Tomos

Bu farw'r Canon Dewi Tomos, Rhydaman gynt, a'i wraig Anna o fewn deuddydd i'w gilydd ddiwedd Awst. Roedd y ddau wedi treulio cyfnod olaf eu bywydau mewn cartref i bobl hŷn ym mhentref Cross Hands, a hyd at ganol eleni, bu'n cyfrannu'n gyson i'r Llan.

Daw cyfle i dalu teyrnged deilwng iddo yn rhifynnau nesaf y newyddiadur a oedd mor annwyl ganddo, ond trwy garedigrwydd Eluned Rees, cawsom y gerdd hon o'i eiddo a luniodd ym mis Chwefror eleni, ac a gyhoeddir yma gyda chaniatâd y teulu.

Yn ystafell gyffredin
cartref trigiannol yr hen,
gyferbyn, ni a eisteddem.
Ond hithau heb wên
nac arwydd adnabod ohoni
anwylyd ei hoes,
Ond edrych ac edrych
a phopeth a ddarfu yn groes.
Mor hawdd yw cleisio
ar groen mor denau, ar gyhyr
mor frau,
Gwyn fyd petai gwenu gyn
hawsed
rhwng dau.

Mae'n bleser gan yr Eglwys yng Nghymru gyhoeddi cyfrol newydd dan y teitl Gweddi Ddyddiol, a fydd yn ymgorffori'r Foreol a'r Hwyrol Weddi. Bydd y gyfrol yn cael ei lansio yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol yn Llanbedr Pont Steffan ar 22 a 23 Medi. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnig cymhorthdal ar bris adwerthu'r gyfrol, sef £35.00, oherwydd am y chwe mis cyntaf, bydd modd eu prynu nhw am £22.00 yr un.

Os hoffech chi archebu copïau o'r gyfrol, gellir gwneud hynny ar wefan yr Eglwys yng Nghymru, neu ffonio Ritchie Craven ar 029 2034 8257.

Erthyglau, llythyrau ac ymholiadau at rifyn HYDREF 2010
Golygydd *Y Llan:* HUW TEGID ROBERTS, 23 BRO EDNYFED, LLANGEFNI, YNYS MÔN LL77 7WA
e-bost: huwtegid@tiscali.co.uk – **erbyn dydd Llun, 27 Medi, os gwelwch yn dda**
Os hoffech chi danysgrifio i'r cylchgrawn hwn, cysylltwch â: Canolfan Gyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru, 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF. Ffôn: 029 2034 8200. e-bost:publications@churchinwales.org.uk